

CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 5ed Ebrill 2017 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd P. Prendergast (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Ms J. Hughes, A. R. James, Mrs P. M. Jones, Ms J. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, S. H. Ratcliffe, Miss S. L. Roberts, Miss R. Siddall, D. Simmons, W. N. Tasker a T. Thomas.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

124. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIAD

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr I. Armstrong (yn sâl), B. Blakeley (ymrwymiad arall), B. Mellor (ymrwymiad teuluol), A. J. Rutherford (ymrwymiad gwaith) a Miss C. L. Williams (ymrwymiad arall).

Cyfeiriodd y Cadeirydd ar farwolaeth Rhyddfreniwr Anrhydeddus cyntaf y Rhyl, Mr Roy Turner. Ar ôl i'r cyfarfod sefyll mewn munud o dawelwch, dywedodd y Cadeirydd y byddai manylion gwasanaeth coffa Mr Turner yn cael eu dosbarthu iddyn nhw unwaith y byddai Clerc y Dref wedi eu derbyn.

125. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – CHWEFROR 2017

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu'r rhestr o daliadau a wnaed ym mis Chwefror 2017.

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Swm	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
056	Y Cyngh S Roberts (Maer)	997.50	Lwfans y Maer 2016/17 3 o 3
057	Y Cyngh A James (Dirprwy Faer)	332.50	Lwfans y Maer 2016/17 3 o 3
216	Cyngor Sir Ddinbych	302.40	Gosod a thynnu i lawr stonin y goeden Nadolig a rheiliau
217	Proarb	1,488.00	Cyflenwi a chodi coeden Nadolig
100	Cymdeithas Gymunedol y Rhyl	6,650.00	Taliadau Gwasanaeth Ffordd Wellington Chwarter 4 2016/17
218	Sage & Co	30.00	Ffioedd cyflogres misol ar gyfer Chwefror 2017
219	HSBC	5.50	Taliadau Banc 17 Rhagfyr 2016 i 16 Ionawr 2017
220	Gunsmoke Communications	1,555.82	Ffioedd Rheoli Digwyddiadau a Threuliau Amrywiol 2017
221	Delwedd	671.28	Lletya Blynyddol a Chynnal Gwefan
222	Canda Copying	275.46	Rhentu llungopiwr a chopïau du a gwyn
223	Canda Copying	42.80	Copiâu lliw
224	Scottish Power	442.26	Trydan ar gyfer goleuadau 2016
225	Staff Cyngor Tref y Rhyl	6,694.28	Cyflogau Staff Cyngor Tref y Rhyl Chwefror 2017
226	Cyngor Sir y Fflint	3,651.27	Didyniadau Pensiwn 2017 + cyllid diffyg
227	HMRC	2,573.90	Didyniadau PAYE Ionawr 2017

085	Siop Cyngor ar Fudd-daliadau	1,833.33	Gweithiwr Apêl Chwefror 2017
228	Sioned Graham-Cameron	517.39	Gwasanaeth Cyfieithu
229	Cyngor Sir Ddinbych	5,000.00	Rhyl Perceptions – Cyfraniad – Blwyddyn 3 o 3
230	Comisiynydd Gwybodaeth	35.00	Ffi Gofrestru 2017/18
231	HSBC	200.00	Ychwanegiad Arian Mân
232	Neopost	200.00	Ychwanegiad Peiriant Ffranco
233	Grassroots	35.00	Nawdd Crys Pêl Droed Cyngor Tref y Rhyl
234	Sage & Co	30.00	Ffioedd cyflogres misol Mawrth 2017
235	BT	113.04	Rhentu Llinell
236	Cyngor Sir Ddinbych	11,964.00	Contract Cynnal a Chadw Goleuadau
237	HSBC	5.50	Taliadau Banc 17 Ionawr 2017 i 16 Chwefror 2017
085	Siop Cyngor ar Fudd-daliadau	1,833.33	Gweithiwr Apêl Mawrth 2017
238	Cyngor Sir y Fflint	3,651.27	Didyniadau Pensiwn Chwefror 2017 + cyllid diffg
239	HMRC	2,573.51	Didyniadau PAYE Chwefror 2017
240	Gunsmoke Communications	1,440.00	Ffioedd Rheoli Digwyddiadau Chwefror 2017
241	Staff Cyngor Tref y Rhyl	6,668.18	Cyflogau Staff Cyngor Tref y Rhyl Mawrth 2017
242	Cyngor Sir Ddinbych	243.00	Cynnal a Chadw Liff
	Cyfanswm taliadau	62,055.52	
	HSBC	28.40	Llog ar fuddsoddiadau 7 diwrnod
	Santander	19.11	Llog ar Gyfrif Hysbysiad 31 Diwrnod
	Cyfanswm Derbyniadau	47.51	

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad.

126. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I RESTR CYFLENWYR CYMERADWY – EBRILL 2017

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth, cyflwynodd Clerc y Dref, yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor.:

- Atodlen A sef rhestr o daliadau rheolaidd a fyddai'n cael eu gwneud gan y Cyngor dros y flwyddyn ariannol, gyda'r union daliadau yn cael eu hadrodd i gyfarfodydd yn y dyfodol pan gawsant eu talu
- Atodlen B sef rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod

Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi ychwanegiadau i'r Rhestr Cyflenwyr Cymeradwy, sef:

- Swyddfa Archwilio Cymru – i dalu Ffi Archwilio Allanol 2015/16 a
- Cyngor ar Bopeth – i dalu cyfraniad Cynghorydd Tlodi Tanwydd

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r atodlenni canlynol i'w talu a'u llofnodi gan y Cadeirydd a'r Maer.

(a) Atodlen A – Taliadau Rheolaidd (1af Ebrill 2017 – 31ain Mawrth 2018)

Cyflenwr a Disgrifiad	Amllder	Dull	Amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn
			£
Cyflogau Net Staff Cyngor Tref y	Misol	Trosglwyddiad	84,000

Rhyl		Banc	
Didyniadau Cyflog HMRC	Misol	Trosglwyddiad Banc	36,000
Cynllun Pensiwn Cyngor Sir y Fflint	Misol	Trosglwyddiad Banc	44,400
Cyfanswm Costau Staff			164,400
Sage & Company gwasanaethau Cyflogres	Misol	Archeb Sefydlog	360
Cyngor Sir Ddinbych – Treth Gyngor (10 mis)	Misol	Archeb Sefydlog	7,000
HSBC – Taliadau Banc	Misol	Debyd Uniongyrchol	240
Gunsmoke Communications - CC a Digwyddiadau	Misol	Trosglwyddiad Banc	19,200
Sioned Graham-Cameron - Gwasanaethau Cyfieithu	Misol	Trosglwyddiad Banc	1,920
Cyngor ar Fudd-daliadau – Swyddog Apeliadau	Misol	Trosglwyddiad Banc	11,000
Cymdeithas Gymunedol y Rhyl – Rhent	Chwarterol	Archeb Sefydlog	18,000
Cymdeithas Gymunedol y Rhyl – Taliadau Gwasanaeth	Chwarterol	Archeb Sefydlog	26,600
BT Telephones - Llinellau a Galwadau	Chwarterol	Debyd Uniongyrchol	3,360
BT Telephones - Band Llydan	Chwarterol	Debyd Uniongyrchol	480
Shire Leasing - System ffôn Avaya	Chwarterol	Debyd Uniongyrchol	1,360
Neopost - Peiriant Ffrancio	Chwarterol	Trosglwyddiad Banc	720
Cyngor ar Bopeth – Gweithiwr Tlodi Tanwydd	Chwarterol	Trosglwyddiad Banc	8,000
Canda Copying – Rhentu Llungopiwr a Thaliadau	Chwarterol	Trosglwyddiad Banc	2,160

(b) *Atodlen B Taliadau i'w Cymeradwyo (Ebrill 2017)*

Enw'r Cyflenwr	Disgrifiad o'r Gwasanaethau	Rhif Taleb	Dull Talu	Swm £
BT	Taliadau Rhent 1 Mawrth 2017 i 31 Mai 2017	243	Debyd Uniongyrchol	126.48
TAPE	Perfformiad Ghostbusters, Dydd Gŵyl Dewi	244	Trosglwyddiad Banc	122.00
Cyngor Sir Ddinbych	Gwaith Gwerthuso Swyddi Mawrth 2017	245	Trosglwyddiad Banc	115.37
Neopost	Cerdyn IJ25 ar gyfer Peiriant Ffrancio	246	Trosglwyddiad Banc	108.04
Swyddfa Archwilio Cymru	Ffi Archwilio Allanol 2015/16	247	Trosglwyddiad Banc	273.30
BJS Solutions	Gliniadur, Meddalwedd ac Addaswr VGA	248	Trosglwyddiad Banc	636.60
Cyfaswm Atodlen B				£1,381.79

(c) *Cymeradwyo'r ychwanegiadau i'r Rhestr Cyflenwyr Cymeradwy, sef Swyddfa Archwilio Cymru a Chyngor ar Bopeth.*

127. DATGANIAD TALIADAU ARIAN MÂN (HYDREF 2016 – MAWRTH 2017)

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gofyn i'r Aelodau gymeradwyo gwariant arian mân yn ystod y cyfnod chwe mis uchod, gyda'r atodlen daliadau ynghlwm fel atodiad A.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r taliadau canlynol o'r gronfa arian mân.

Disgrifiad o Nwyddau a Gwasanaethau	Swm
Llefrith a Choffi o ALDI	£7.28
Aldi – Sudd Oren, Dŵr a Hylif Golchi Llestri	£8.87
Tâp Unibond x 5 a Dyddiadur	£26.50
Dyddiaduron x 2	£2.00
Dyddiaduron x 2	£2.00
Lliain Bwrdd a Phlatiau – Cyfarfod Nadolig y Cyngor	£2.07
Lluniaeth ar gyfer Cyfarfod Cyngor Llawn Nadolig	£68.57
Stampiau 100 x 64c	£64.00
Fframiau Lluniau x 4	£12.00
Dŵr a Hylif Golchi Llestri	£2.97
Parcio (GN) Cyfarfod yng Nghonwy	£2.50
Dŵr, Sudd a Llefrith ar gyfer Cyfarfodydd	£4.55
Tâp Perygl o G E Tools	£3.54
5 x Côn Traffig o Screwfix	£29.99
Parcio HJW – Digwyddiad Dydd Gŵyl Dewi	£1.30
Llefrith – Cyfarfod y Cyngor	£1.00
Aldi – Dŵr, Sudd Oren a Phethau Glanhau	£9.40
Sainsbury's Diodydd i Dderbynfa'r Maer yn y Gala	£105.00
Powells – Glanhau Cadwyn y Maer	£15.00
Cyfanswm	£368.54

128. CYNLLUN LWFANSAU AELODAU 2017

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar benderfyniadau Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Cymru.

PENDERFYNWYD cydnabod y newidiadau a newid Polisi Lwfansau Aelodau'r Cyngor Tref yn unol â hynny.

129. PENODI ARCHWILWYR MEWNOL AC ALLANOL

Cyflwynodd Clerc y Dref ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn ymwneud â phenodi archwiliwr y Cyngor Tref.

Yr archwiliwr mewnol a ddewiswyd ar gyfer 2016/17 yw JDH Business Services ac mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi penodi'r archwiliwr allanol BDO LLP ar gyfer 2015-2018.

Dywedodd Clerc y Dref mai ffocws yr archwiliwr allanol ar gyfer 2016/17 yw:

- Gwefannau cynghorau
- Cyflogres
- Côd Ymddygiad / Datganiadau Aelodau

Ychwanegodd Clerc y Dref bod angen i'r Aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fusnes sydd ganddynt yn y naill archwiliwr neu'r llall.

PENDERFYNWYD:

- (i) Cymeradwyo penodi JDH Business Services.
- (ii) Cydnabod penodiad parhaus BDO LLP.
- (iii) Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

130. ADNEWYDDU YSWIRIANT 2017

Cyflwynodd Clerc y Dref ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn dweud bod brocer y Cyngor Tref yn y broses o ofyn am brisiau gan bedwar cwmni gyda dyddiad olaf o ddiwedd mis Ebrill.

Argymhellodd Clerc y Dref alw cyfarfod o'r Is-bwyllgor Asesu Risg i ddewis cwmni yn wyneb y ffaith bod cyfarfod Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ym mis Mai wedi ei ganslo.

PENDERFYNWYD cyfeirio dewis cwmni, gyda darpariaeth newydd yn cychwyn ar 1af Mehefin 2017, at yr Is-bwyllgor Asesu Rsg i'w benderfynu.

131. DIFROD YNG NGHANOLFAN GYMUNEDOL TYNEWYDD

Adroddodd Clerc y Dref bod difrod arwyddocaol i'r mur derfyn a allai fod wedi ei achosi gan gerbyd yn ei daro.

Ceisiwyd cael prisiau gan ddau gontractwr lleol i ail-adeiladu'r wal, ond ni dderbyniwyd un, felly, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y pwyllgor hwn ac oherwydd bod y wal yn cynrychioli perygl i'r cyhoedd, bydd Cyngor Sir Ddinbych yn gwneud y gwaith yn yr wythnos yn cychwyn 10fed Ebrill 2017 am bris bras o £700.

Argymhellodd Clerc y Dref y dylai'r Cyngor Tref, ar yr achlysur hwn ac oherwydd y gost gymharol isel, gordal o £250 a cholli mantais dim hawlio, dderbyn y gost yn hytrach na hawlio ar yr yswiriant.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor Tref yn talu am ail-adeiladu'r wal a pheidio â hawlio ar yr yswiriant.

132. YMGYNGHORIAD: POLISI CLUDIANT DYSGWYR SIR DDINBYCH

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn yr uchod (dogfen grynhoi a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) (roedd y ddogfen gyfan ar gael trwy ddolen) i'r Aelodau ei hystyried.

PENDERFYNWYD derbyn y ddogfen.

133. EITEM ER GWYBODAETH: PAPUR TRETHU A PHRSIO

Ymhellach i gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, cyflwynodd Clerc y Dref Bapur Trethu a Phrsio Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru (a ddosbarthwyd gyda'r rhagen) er gwybodaeth i'r Aelodau.

PENDERFYNWYD rhoi cyngor ar sut i apelio'r trethi ar wefan y Cyngor Tref i gynorthwyo busnesau lleol.

134. EITEMAU ER GWYBODAETH GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd materion brys i'w codi.

135. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

136. PWYLLGOR STAFFIO – LLAWLYFR STAFF

Cyfeiriodd Clerc y Dref at argymhellion y Pwyllgor Staffio mewn perthynas â'r llawlyfr arfaethedig (oherwydd maint y ddogfen, dosbarthwyd copi digidol gyda'r rhaglen) i'r Aelodau eu cymeradwyo.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r llawlyfr gan ddiolch yn arbennig i Gadeirydd y Pwyllgor Staffio a oedd wedi mynd trwy'r llawlyfr yn drwyadl iawn i wneud yn siŵr bod buddiannau'r Cyngor a staff y Cyngor yn cael eu hamddiffyn.

137. PRYNU GOLEUADAU Y GWYLIAU

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) bod dau gytundeb prydlesu'r Cyngor (cynllun cyfan a goleuadau ychwanegol ar y Stryd Fawr) wedi dod i ben gydag opsiwn nawr i brynu.

PENDERFYNWYD prynu'r goleuadau a brydleswyd gynt am gyfanswm cost o £4,959.32 a bod arbedion yn y dyfodol yn cael eu trosglwyddo i gyllideb Prosiectau'r Maer.

138. DATBLYGIAD ARFAETHEDIG Y PROMENAD

Dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw beth newydd i adrodd arno.

139. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

140. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, datganodd y Cadeirydd bod y cyfarfod ar ben.

Cadeirydd:.....

Dyddiad:.....